Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
08442 64 06 70
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sgwar Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
CELG(4)-15-14 Papur 2

I: Christine Chapman AC, Cadeirydd, Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
CC: Sarah Beasley, Clerc y Pwyllgor

7fed Mai 2014

Annwyl Gadeirydd,

Ysgrifennaf atoch ynglyn â fy adroddiad ar wasanaethau cymunedol, 'Pwysigrwydd ac Effaith Gwasanaethau Cymunedol yng Nghymru', a gyhoeddwyd ar ddiwedd mis Chwefror.[1]

Mae'r adroddiad wedi derbyn adborth cadarnhaol a wedi helpu i annog trafodaeth ar ddyfodol gwasanaethau cymunedol yng Nghymru. Fel y pwysleisiwyd yn fy adroddiad, rhaid sicrhau nad yw pobl hŷn yn cael eu heffeithio'n anghyfartal gan unrhyw newidiadau i wasanaethau cymunedol. Mae pobl hŷn yn gwneud cyfraniad sylweddol i'n cymunedau a maent angen gwasanaethau allweddol i'w galluogi i barhau fel asedau economaidd.

Mae trafodaethau diweddar yn y wasg ac yn y Senedd ar ddyfodol bysiau cyhoeddus, toiledau cyhoeddus, llyfrgelloedd a chanolfannau dydd/cymunedol wedi dangos pwysigrwydd y gwasanaethau yma, nid yn unig i bobl hŷn ond i eraill yng nghymdeithas. Fe fydd gwaredu'r gwasanaethau yma yn arwain at ystod o broblemau iechyd meddyliol a chorfforol i bobl hŷn, a fydd yn y pen draw yn arwain at fwy o gostau i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn y tymor canolig i'r hir dymor.

[1] http://www.olderpeoplewales.com/wl/Publications/pub-story/14-02-25/The_Importance_and_Impact_of_Community_Services_within_Wales.aspx

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Efallai hoffai'r Pwyllgor ystyried y tystiolaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad, a gall fod yn ddefnyddiol ar gyfer y rhaglen waith i'r dyfodol. Os penderfynir y Pwyllgor i weithredu ymholiad cyhoeddus ar effeithiau lleihau gwasanaethau cyhoeddus a'u heffaith canlynol ar bobl hŷn ac eraill yna byddaf yn hapus i gymryd rhan a darparu tystiolaeth, yn ogystal â rhoi cyngor ar ffurf yr ymholiad pe bai hynny o fudd i'r Pwyllgor.

Gyda rhagor o benderfyniadau anodd i ddod ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus mewn hinsawdd economaidd sydd yn fwyfwy heriol, dyma gyfle amserol i dynnu sylw at fater allweddol a sicrhau y gall pobl hŷn parhau i gyfrannu at yr economi a chwarae rhan lawn a gweithredol yng nghymunedau ar draws Cymru.

Peidiwch ag oedi i gysylltu gyda fi neu fy Arweinydd Cymunedau, Llywodraeth Leol a Lles, Iwan Williams (iwan.williams@olderpeoplewales.com, 02920 445 045), os hoffech drafod yr adroddiad mewn rhagor o fanylder.

Cofion gorau,

**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**